

# EICH ARDAL CHI. BETH SY'N BWYSIG?

ARDAL  
LLŶN



# ASESIAD O LESIANT GWYNEDD A MÔN

EISIAU  
DWEUD  
EICH  
DWEUD?

Mae'r ddeddf newydd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.


Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, gwasanaeth iechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned – yr hyn sy'n bwysig i chi, beth sy'n dda a beth sydd angen ei wella. **Bydd cyfle i chi leisio eich barn trwy fynychu un o'r sesiynau galw heibio lleol neu mewn holiadur ar-lein. Mae mwy o wybodaeth a dyddiad pob sesiwn leol i weld ar [www.LlesiantGwyneddaMon.org](http://www.LlesiantGwyneddaMon.org).**

Bydd y cyfnod ymgynghori yma yn dod i ben ar y 31<sup>ain</sup> o Ragfyr 2016. Y gobaith yw y bydd gan y Bwrdd ddarlun cliriach wedyn o'n cymunedau, beth sy'n bwysig i bobl yn yr ardal yma o Gymru, a sut gall y partneriaid gyd-weithio i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

DAETH DEDDF LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL [CYMRU] I  
RYM AR Y 1<sup>AF</sup> O EBRILL  
2016. PWRPAS Y DDEDDF  
YW GWELLA LLES  
**CYMDEITHASOL,  
ECONOMAIDD,  
AMGYLCHEDDOL  
A DIWYLLIANNOL  
CYMRU.**

**DYMA'R WYBODAETH  
RYDYM WEDI EI  
GASGLU AR ARDAL  
LLŶN, SY'N CYNNWYS  
LLANAELHAEARN A  
LLANYSTUMDWY.  
YDYCH CHI'N ADNABOD  
Y DARLUN SYDD WEDI EI  
GREU O'CH ARDAL CHI?**



# PWY YW POBL LLŶN?

Mae tua **19,000** yn byw yn ardal Llŷn sef **16%** o boblogaeth Gwynedd.

O'i gymharu â gweddill Gwynedd a Chymru gyfan, mae poblogaeth yr ardal yn hŷn ac mae cyfran llawer iawn llai o'r boblogaeth rhwng **15 a 35 oed**.

Mae poblogaeth Gwynedd yn tyfu ac mae disgwyl iddo barhau i dyfu dros y blynyddoedd nesaf.

Tua **123,100** o bobl sy'n byw yn y sir ar hyn o bryd, ond mae ffigyrau yn awgrmyu y bydd yna tua **127,600** mewn deng mlynedd a tua **132,000** mewn ugain mlynedd.

Mae disgwyl i'r twf yma ddigwydd mewn rhai grwpiau oedran yn fwy na'i gilydd, wrth i bobl fyw yn hirach a symud i mewn i'r ardal. Mewn ugain mlynedd mae disgwyl y bydd tua **60%** yn rhagor o bobl dros **80 oed** yn byw yng Ngwynedd, ond dim ond 2% fydd y twf yn y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed.

## IAITH

Mae **73%** o bobl ardal Llŷn yn gallu siarad Cymraeg, sy'n uwch na chanran Gwynedd o **65%**, a Chymru sydd ar **19%**.

Mae'r ffigwr wedi gostwng dros y degawdau diwethaf o'i gymharu â **83%** yn 1981. Mae'r gostyngiad yma o **10%** yn debyg i weddill Gwynedd sydd wedi gostwng o **76%** i **65%** dros yr un cyfnod.


Yn ôl holiadur diweddar mae **74%** o ddisgyblion rhwng 7 ac 11 oed yn ardal Llŷn yn siarad Cymraeg ar fuarth yr ysgol yn aml neu bob amser. Mae hyn yn cymharu gyda **69%** yng Ngwynedd.

**CYNNYDD  
60%  
OEDRAN  
80+**

**2036  
POBLOGAETH  
GWYNEDD  
132,000**



**2016  
POBLOGAETH  
GWYNEDD  
123,000**



## PA MOR WYRDD YW'R ARDAL?

Mae cyfraddau ail-gylchu wedi codi yng Ngwynedd dros y 4 mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae **58%** o wastraff yn cael ei ailgylchu yn ardal Llŷn a'r cyffiniau – mae hyn yn uwch ar gyfartaledd na gweddill y sir ond yn is na Chymru gyfan. Mae hwn yn ffigwr sydd wedi codi yn raddol dros y blyneddau.


Mae tipio slei bach yn is yng Ngwynedd na gweddill Cymru - gyda 4.3 achos o dipio i bob 1000 o'r boblogaeth o gymharu â 10.2.

Ôl troed carbon – mae'r data yn dangos bod **83%** o dai Llŷn yn berchen ar o leiaf un car neu fan, sydd yn uwch na'r cyfartaledd o **77%** ar gyfer Cymru gyfan.

Fodd bynnag, mae allyriadau carbon fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer Gwynedd i gyd yn **7.0kt CO<sub>2</sub>** sydd ychydig yn uwch na lefel Cymru sy'n **6.6kt CO<sub>2</sub>**.

Mae newid yn yr hinsawdd yn achosi i lefel y môr godi sy'n cyfrannu at y risg o lifogydd yn ardal Llŷn. Mae gwybodaeth yn dangos bod risg uchel i dros 900 o dai mewn lleoliadau arfordirol yn ardal Pwllheli. Mae dros 400 o dai dan fgythyad o lifogydd gan afonydd yr ardal.

Mae priddoedd mawn yn gallu storio carbon yn y tir ac yn lleihau allyriadau carbon – mae cyflenwad sylweddol o'r priddoedd pwysig yma yn ardal Llŷn. Ond mae newid yn y pridd oherwydd adeiladu a ffermio yn cael effaith ar y gallu yma i storio carbon, sy'n effeithio'r hinsawdd yn uniongyrchol.



## PA MOR LÂN YW'N STRYDOEDD?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus. Mae eu canfyddiadau nhw yn dangos bod canran uchel o strydoedd Llŷn ymysg y glanaf yng Nghymru. O'r strydoedd archwiliwyd yn yr ardal roedd **20%** heb sbwriel na gwastraff o gwbl (**Gradd A**) - dyma'r canran uchaf ar gyfer Gwynedd i gyd. Roedd **33%** gyda dim mwy na tair eitem fach o sbwriel (**Gradd B+**) a **47%** ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff, gan eithrio rhai eitemau bach (**Gradd B**).



STRYDOEDD  
GRADD A  
20%

## AMGYLCHEDD NATURIOL

Cafodd rhan helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn **Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956**, un o bump yng Nghymru.

Mae tirwedd ac arfordir amrywiol yn amgylchynu'r ardal a'r môr yn gynefin pwysig i ddolffiniaid trwynbwl. Mae clogwyni Llŷn hefyd yn gartref i adar nodedig a gwenyn prin.


I mewn yn y tir, mae gwlyptiroedd a chloddiau yn gynefinoedd i lawer o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid.

Mae **3 traeth** neu bromenâd wedi eu gwobrwyo gyda **Baner Las** sy'n golygu eu bod ymysg y traethau gorau yn y byd.

Y rhain yw:

**PWLLHELI [MARIAN Y DE]**  
**ABERSOCH [PORTH FAWR]**  
**ABERDARON**

Mae traeth Glan y Don, Pwllheli a Porth Neigwl hefyd wedi ennill Gwobr Arfordir Glas.



# CYMDEITHASOL

## IECHYD DA?

Yn Llŷn mae tua **1,900** o gleifion wedi cofrestru fesul meddyg teulu. Mae hyn tipyn uwch na lefel Gwynedd sef **1,400** a Chymru yn **1,600**. Byddai angen dau feddyg teulu arall yn Llŷn i ddod â'r ffigwr i lefel Cymru.

Os ydych chi yn byw yn yr ardal yma o Wynedd byddwch yn aros ar gyfartaledd **7:15 munud** am ambiwlans i ymateb i achos ble mae bygythiad i fywyd.

Nid oes gwybodaeth benodol am iechyd poblogaeth ardal Llŷn. Mae'r ystadegau sy'n cael eu cynnwys yn y llyfryn hwn ar gyfer Gwynedd gyfan – ond yn rhoi syniad i chi o gyflwr a phatrymau o ran iechyd y sir.

Mae disgwyliad oes dyn adeg geni yng Ngwynedd yn **80 oed** tra bod disgwyliad oes merched adeg geni yn **83.5 oed**. Mae'r bwch mewn disgwyliad oes merched a dynion, rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig yn ein cymunedau yn sylweddol is yng Ngwynedd na gweddill Cymru. I ferched yng Ngwynedd mae'r bwch yn **1.4 blwyddyn** o'i gymharu â **7.3 blwyddyn** ar lefel Gymreig, a **3.1 blwyddyn** i ddynion o'i gymharu â **8.9**.


Mae **52%** o oedolion Gwynedd dros bwysau neu yn ordev – mae hyn yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sy'n **58%**.

Mae 30% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordev – sy'n uwch na ffigwr Cymru o 26%.

Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw **ysmygu ac yfed alcohol**. Mae **22%** o bobl **16 oed** neu'n hŷn yn dweud eu bod yn ysmegu a **42%** o bobl yn yfed mwy na **5 gwydr bach o win**, neu tua **3 pheint o gwrw**, ar y diwrnod yfed trymaf yr wythnos. Mae'r ddau ffigwr yma yn debyg iawn i weddill Cymru.

Mae cyfradd hunanladdiad yng Ngwynedd, sef 14.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn uwch na chyfradd hunanladdiad Cymru sef 12.2.

Yng Ngwynedd, mae cyfradd beichiogi merched yn eu harddegau sydd o dan 18 oed yn 24 fesul 1000 o ferched 15-17 oed. Mae hyn yn debyg i ffigyrau Cymru.



HYD OES



22%  
O BOBL DROS  
16 OED YN  
YSMYGU



## CADW'N DDIOGEL



Mae troseddau Llŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi gostwng o **86.3** i **63.7** rhwng 2011 a 2015. Mae hyn yn is na'r cyfradd ar draws Gwynedd, ond sydd hefyd wedi gostwng yn ystod yr un cyfnod.

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar i lawr yn Llŷn ond yn dal yn cyfri am **37%** o'r holl droseddau yma yn ystod 2015.

Yn yr ardal mae **78 o achosion tân** ar gyfartaledd pob blwyddyn – a **19%** o'r achosion hynny wedi'u cychwyn yn fwriadol, sy'n uchel o gymharu ag ardaloedd eraill o'r sir.

**78**  
**ACHOS TÂN**

**19%**  
**YN FWRIADOL**

## CADW MEWN CYSYLLTIAD

Mae'r canran sydd â mynediad i fand-eang yn cynyddu yn flynyddol – erbyn hyn **3%** o eiddo yng Ngwynedd sydd heb fynediad o gwbl. Mae hyn yn welliant sylweddol o'r **20%** yn 2011.

Mae **17%** o gartrefi yn ardal Llŷn heb gar neu fan, sy'n is na'r ffigwr ar gyfer Gwynedd, sef **21%** a **22%** ar gyfer Cymru gyfan.

Yn ôl data cenedlaethol mae ardaloedd Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Llanaelhaearn, Llanystumdwy, Efailnewydd, Buan a Llanengan ymysg y 10% o ardaloedd yng Nghymru lle mae'n cymryd y mwyaf o amser i deithio at wasanaethau fel fferyllfa, siopau bwyd a meddygfeydd.

Mae unigrwydd yn gyflwr sy'n effeithio ar bob oedran, ond mae pobl hŷn yn fwy agored i risg. Yn Llŷn mae'n ymddangos bod risg uwch i bobl dros 65 fod yn unig yn ardal Pwllheli a Nefyn, gyda llai o ffactorau sy'n arwain at unigrwydd yn ardal Aberdaron. Yng Nghymru, mae Gwynedd ymysg y siroedd ble mae'r risg uchaf o unigrwydd.

## HELPU'N GILYDD

Mae **283** o bobl Gwynedd yn gwirfoddoli trwy'r **Ganolfan Gwirfoddolwyr**. Mae'r nifer go iawn sy'n gwirfoddoli trwy glybiau chwaraeon a chymdeithasau amrywiol yn llawer iawn uwch ond mae'n anodd mesur hyn.

Mae **10%** o'r boblogaeth yn ardal Llŷn yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o **ofal di-dâl**. Mae'r ffigwr yma yn debyg iawn i ardaloedd eraill ar draws Gwynedd a gweddill Cymru.



# ECONOMI A GWAITH

O dan y mesur ar gyfer pa mor gryf a chynhyrchiol yw economi (sef Gwerth Ychwanegol Crynswth), mae economi Gwynedd yn gryfach nag economi Cymru ac ardaloedd eraill cyfagos fel Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych. Ond, mae economi'r holl ardaloedd hyn gan gynnwys Cymru gyfan yn wan o'i gymharu â'r Deyrnas Gyfunol.

Mae 31% o bobl sydd mewn gwaith yn ardal Llŷn heb gymhwyster yn gweithio yn y crefftau medrus. Dim ond 10% o'r rhai sydd heb gymhwyster sy'n gweithio fel rheolwyr neu gyfarwyddwyr.

Mae'r 35% o bobl sydd â chymhwyster gradd neu gyfatebol yn gweithio yn y maes proffesiynol. Mae hyn yn ffigwr tebyg i weddill Gwynedd a Chymru.

Mae canran y bobl 16-64 oed oedd yn hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Llŷn y llynedd, sef 0.83% yn un o'r isaf yng Ngwynedd ac yn is na'r canran Cymreig o 2.2%. Ond mae'r ffigwr yn amrywio yn fawr gan bod patrwm gwaith ardal Llŷn yn dymhorol iawn

O bobl Llŷn sydd heb gymhwyster o gwbl mae 43% yn economaidd anweithgar, mae hyn yn golygu ddim yn gweithio am amrywiol resymau.

Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yng Ngwynedd yn is nag Ynys Môn a Chymru. Mae 62% o gwmnïau yng Ngwynedd yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd neu fwy. Mae hyn ychydig uwch na Chymru sydd ar 60%. Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yng Ngwynedd o'i gymharu â Chymru.

# £293

## YW CANOLRIF CYFLOG WYTHNOSOL YR ARDAL. DYMA'R ISAF YM MHRYDAIN



Mae 28% o gyflogwyr Llŷn yn y sector amaeth, pysgota a choedwigaeth, sydd ddwywaith gymaint â'r diwydiant nesaf ato sef adeiladu.

Gyda 21% o bobl Llŷn yn gweithio o adref, mae bron i ddwbwl y cyfartaledd Cymreig o 11% ac yn uwch na'r ffigwr ar gyfer Gwynedd gyfan sef 16%.

Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd (y mae ardal Llŷn yn rhan ohoni) tua **£293 yr wythnos**, sydd **16% yn is** na Gwynedd gyfan (£347 yr wythnos), a **24% yn is** na Chymru gyfan (£387 yr wythnos). Dyma'r isaf ym Mhrydain.

Mae cyflogau merched 25% yn llai na chyflog dynion yn yr ardal. Mae'r bwlch yma rywfaint yn llai na'r bwlch ar draws Gwynedd gyfan, lle mae cyflogau merched 32% yn llai na chyflog dynion.






## 62% O GWMNIAU MEWN BUSNES AM 3 BLYNEDD+

# SGILIAU AM OES

Mae 62% o ddisgyblion ardal Llŷn yn cael 5 A\* i C yn eu harholiadau TGAU mewn pynciau sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Mae hyn yn debyg i berfformiad Gwynedd, ond yn llawer uwch na Chymru.

O'r rhai sydd yn cael 5 A\* i C yn y pynciau hyn, mae bwlch mewn cyrhaeddiad o 34% rhwng disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n talu. Mae hyn yn cymharu â bwlch o 36% ar gyfer Gwynedd, a 33% yng Nghymru gyfan.

Mae gan chwarter poblogaeth ardal Llŷn gymhwyster gradd neu debyg, gyda 26% heb gymhwyster o gwbl. Mae'r tuedd yn debyg iawn yng Ngwynedd a Chymru.



# YR ARIAN YN EICH POCED

Mae incwm sydd ar gael i'w wario ar ôl costau talu am gartref a threthi gan bobl yng Ngwynedd, yn **£14,640** y pen y flwyddyn, sydd yn llai na Chymru gyfan..


Yn ardal Llŷn, mae **12%** o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio pryddau ysgol am ddim sydd 2% yn is na Gwynedd gyfan. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd ysgol uwchradd, mae'r ffigwr yn gostwng i tua **10%**, sydd hefyd yn is na'r 13% ar gyfer gweddill y sir.

Mae bron i **23%** o gartrefi Llŷn mewn tlodi tanwydd, sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru. Mae'n uwch na Gwynedd gyfan sydd â **20%** o aelwydydd mewn tlodi tanwydd, ac yn sylweddol uwch na Chymru, sydd ar **14%**.

O'r holl aelwydydd yn yr ardal, mae cymaint ag **11%** heb wres canolog. Sy'n uchel iawn o'i gymharu â gweddill Cymru sydd â dim ond 2% o gartrefi heb wres canolog.

Mae pris tŷ yn ardal Llŷn tua **£175,000** ar gyfartaledd. Mae prisiau uchaf yr ardal yn Llanengan, (£312,500) ac Abersoch (£285,000).

Mae canolrif incwm teuluoedd Llŷn tua **£22,000**, ond mae angen o leiaf **£35,000** i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod **73%** o aelwydydd Llŷn wedi eu prasio allan o'r farchnad.



# DIWYLLIANNOL





# CADW'N HEINI

Dim ond ffigyrau ar lefel Gwynedd sydd ar gael ar gyfer chwaraeon. Rydym yn gwybod bod **53%** o ddisgyblion Gwynedd yn ymweld â chanolfannau hamdden, sy'n uwch na lefel Cymru o **42%**. Mae 51.6% o blant Gwynedd hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos – mae hyn yn cymharu â 48% yng Nghymru.

Mae **37%** o oedolion yn dweud eu bod yn actif am o leiaf **30 munud** ar bump neu fwy achlysur mewn wythnos – mae hyn yn uwch na **31%** yng Nghymru. Mae'r canran wedi codi yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf.

**51%**

**O LYFRAU  
PLANT WEDI EU  
BENTHYG YN  
RHAI CYMRAEG**



**37%**

**O OEDOLION YN  
CADW'N ACTIF AM  
O LEIAF 30 MUNUD  
5 GWAITH YR  
WYTHNOS**

# AMSER HAMDDEN

Mae pobl Llŷn yn benthyg llai o lyfrau llyfrgell na gweddill Gwynedd gyda dim ond **2.6** llyfr ar gyfartaledd y pen wedi eu benthyg yn 2015./16. Mae hyn o'i gymharu â **4.2** ar gyfer y sir i gyd. O'r llyfrau ar gyfer plant sydd wedi eu benthyg, mae **51%** ohonynt yn lyfrau Cymraeg, sydd yn uwch na lefel Gwynedd o **39%**.

Dim ond ar gyfer Gwynedd gyfan mae ffigyrau celfyddydau ar gael. Mae **62%** o oedolion yng Ngwynedd yn dweud eu bod wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn, **35%** wedi ymweld ag amgueddfa a **54%** wedi ymweld â llyfrdd hanesyddol.

**AM FWY O  
WYBODAETH...**

**WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG  
01766 771000**

Gofynnwch am  
Rheolwr Partneriaeth Gwynedd a Môn

